

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Cyfnewid Cyfnod

Dyddiadau Allweddol:



TAR-1af & 2il Chwefror
BA3-18fed & 19eg Ebrill

Rhesymeg

Cyfle datblygu proffesiynol na chaiff ei asesu yw'r Cyfnewid Cyfnod sy'n caniatáu i athrawon dan hyfforddiant dreulio amser yn archwilio ymarfer mewn cyfnod gwahanol i'r un y maen nhw'n hyfforddi ynddo. H.y. Ysgol Gynradd neu Uwchradd.




Trefniadau

Mae'r cyfnewid cyfnod yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cynllunio'r cwricwlwm
- Pwyntiau pontio
- Dulliau addysgeol



Bydd yr athrawon dan hyfforddiant yn mynychu ysgol Gynradd neu Uwchradd o fewn eu rhwydwaith, neu'n agos ato, lle bo modd.



Adfyfrio a SAC

Disgwylir i athrawon dan hyfforddiant adfyfrio ar y profiad a chwblhau Templed Profiad Proffesiynol (TPP) ar eu Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP).

Dylid cysylltu asedau sy'n rhoi tystiolaeth o'r cyfnewid cyfnod â'r TPP. Gallai hyn gynnwys nodiadau, ppts, taflenni, darlenniadau, amserlen, ac ati. Dylid cysylltu'r TPP â safonau SAC priodol neu berthnasol hefyd.



Enghreifftiau o Safonau SAC perthnasol

Addysgeg – Hyrwyddo Dysgu – Pedwar diben ar gyfer dysgwyr, Dilyniant mewn dysgu, themâu trawsgwricwlaidd.

Addysgeg – Mireinio Addysgu – Rheoli'r amgylchedd dysgu, cynnwys partneriaid mewn dysgu.

Dysgu Proffesiynol – Rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol, Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil.